O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1376 (Cy.121)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1376 (Cy.121)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed *28 Ebrill 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *30 Ebrill 2010*

Yn dod i rym *21 Mai 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diodydd)(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 21 Mai 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/1971.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002.

Diwygiadau i Reoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009 fel a ganlyn.

(2) Yn yr enw ac yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a chymhwyso) yn y testun Cymraeg yn lle "(Jeli Cwpan Fach)" rhodder "(Jeli Cwpanau Bach)".

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli) yn y testun Saesneg—

(a) ar ddiwedd paragraff (3)(a) mewnosoder "or";

(b) ym mharagraff (3)(b) dileer "; or" ac yn ei le rhodder ","; ac

(c) ym mharagraff (3) dileer is-baragraff (c).

(4) Yn rheoliad 2 (dehongli) yn y testun Cymraeg—

(a) ar ddiwedd paragraff 3(a) mewnosoder "neu";

(b) ym mharagraff (3)(b) dileer "; neu" ac yn ei le rhodder ","; ac

(c) ym mharagraff (3) dileer is-baragraff (c).

(5) Ym mharagraff (5) o reoliad 3 (gwaharddiadau) yn y testun Cymraeg ar ôl y gair "gyfnod" mewnosoder y gair "nad".

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

28 Ebrill 2010